

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Welsh Local Government Association



CLILC • WLGA

Pennaeth y Rhaglen Wella

Pecyn Gwybodaeth Recriwtio



Dyddiad Cau: 10 Mai 2021 (9:00am)

Dyddiad y Cyfweiliad: I'w gadarnhau Wythnos yn
Dechrau 17 Mai a 24 Mai 2021

Pennaeth y Rhaglen Wella

Cyflog:	Graddfa 7 - SCP 50-52 (£51,603 - £59,358)
Cyfnod:	3 mlynedd (posibilrwydd o gytundeb parhaol yn ddibynnol ar gadarnhad o gyllid pellach)
Yn atebol i:	Pennaeth Polisi (Gwella a Llywodraethu)
Lleoliad:	Un Parêd y Gamlas, Caerdydd a Gweithio Gartref

Swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol: Ydy

Cymraeg yn hanfodol: Na. Mae'r gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn rhugl yn ddymunol ar gyfer y swydd hon.

Ynglŷn â'r Swydd

Caiff tîm gwella CLILC ei ariannu trwy grant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu ymrwymiad dangosol i gyllid grant i CLILC am raglen o wella dros gyfnod o dair mlynedd o 2021-24, fodd bynnag, gwobrwyir y grant ar sail blynyddol yn ddibynnol ar gyflwyno a chymeradwyo cynllun busnes blynyddol. Hysbysebir y swydd felly ar sail tymor penodol, ond gall gael ei ymestyn neu ei wneud yn barhaol pe byddai Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i gyllid grant tymor hirach neu pe bai cyllid craidd ar gyfer y tîm gwella yn cael ei ddarparu i CLILC trwy frigidoriad o'r Grant Cynnal Refeniw wedi ei gytuno gan aelod awdurdodau.

Mae hon yn swydd newydd gyffrous o fewn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, gan weithio gyda'r Pennaeth Polisi (Gwella a Llywodraethu), i ddatblygu ac arwain rhaglen newydd uchelgeisiol o gefnogaeth dan arweiniad y sector i lywodraeth leol. Byddwch yn gallu addasu, yn hyblyg, arloesol ac ymatebol a sensitif i'r heriau a'r amgylchedd wleidyddol ble mae awdurdodau lleol yn gweithredu.

Gan weithio mewn partneriaeth â Phrif Swyddog Digidol Llywodraeth leol a Data Cymru a gweithio'n agos gyda CLIL, bydd Rheolwr y Rhaglen Wella a'r tîm yn comisiynu a darparu ystod o gefnogaeth i awdurdodau lleol i gefnogi aelodau a datblygu arweinyddiaeth, hyrwyddo llywodraethu corfforaethol effeithiol, gwelliant a trawsnewid i yrru gwelliant parhaus a gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

Bydd y swydd yn goruchwyllo ac yn darparu cefnogaeth sensitif yn aml a her cyfaill beirniadol i uwch aelodau a swyddogion mewn llywodraeth leol a bydd yn gyfrifol am sefydlu a chydlynu rhaglen herio a chefnogi cymheiriaid (gan gynnwys asesiadau panel statudol newydd) i awdurdodau lleol yng Nghymru.

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau:

- Goruchwyllo comisiynu a darparu rhaglen wella CLILC, gan gynnwys gweithgarwch a phrosiectau, gan gynnwys:
 - Adferiad Pandemig COVID19;
 - Democratiaeth Leol a Datblygu Aelodau;
 - Llywodraethu Corfforaethol a Pherfformiad;

- Gallu Corfforaethol; a
- Cefnogaeth bwrpasol i'r cynghorau hynny sydd angen cefnogaeth fwy dwys a phwrpasol.
- Arwain a rheoli tîm gwella CLILC (staff C5), gan ddatblygu diwylliant o waith tîm hyblyg a chydweithredol i sicrhau bod cynllun busnes gwella blynyddol CLILC yn cael ei ddatblygu a'i gyflawni'n llwyddiannus.
- Hyrwyddo a chefnogi arloesi a thrawsnewid, hwyluso rhwydweithio, rhannu arferion da a throsglwyddo gwybodaeth.
- Datblygu a chynnal cysylltiadau adeiladol ac effeithiol gydag arweinwyr gwleidyddol a rhwydweithiau proffesiynol CLILC, gan gynnwys Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru, Cymdeithas Trysoryddion Cymru, Cyfarwyddwyr Adnoddau Dynol, cyfreithwyr Llywodraeth Leol, CCAC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a sicrhau eu hymroddiad a'u hymrwymiad i raglen wella dan arweiniad y sector.
- Gweithio gydag awdurdodau a phartneriaid, sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad llywodraeth leol a sicrhau bod cefnogaeth wella ragweithiol ar gael i awdurdodau fel bo'r angen.
- Sefydlu a rheoli cynnig asesu panel statudol newydd i awdurdodau lleol yng Nghymru a sefydlu rhaglen gymheiriaid a goruchwyllo cefnogaeth her gymheiriaid CLILC, gan weithio gyda CLIL, gan gynnwys rheoli staff CLILC, aelodau etholedig a chymheiriaid swyddogion a phartneriaid wrth ddarparu cefnogaeth a her i gymheiriaid.
- Goruchwyllo recriwtio ac adleoli aelodau a swyddogion, datblygu perthynas weithio agos gyda chymheiriaid, gan ddarparu adborth a chefnogi eu datblygiad.
- Goruchwyllo comisiynu a darparu ystod o raglenni i gefnogi gweithrediad llwyddiannus awdurdodau lleol o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
- Goruchwyllo cynnig datblygiad aelodau CLILC a chefnogi datblygiad arweinyddiaeth, gan weithio gyda phartneriaid gan gynnwys Academi Wales a Chymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol.
- Cynrychioli CLILC yng nghyfarfod Gwella a Chefnogaeth chwarterol Llywodraeth Cymru (cyfarfod o arolygiaethau, rheoleiddwyr cenedlaethol a Llywodraeth Cymru).
- Datblygu a chynnal cysylltiadau adeiladol gydag uwch-arweinwyr gwleidyddol a phroffesiynol o fewn llywodraeth leol ac awdurdodau sy'n aelodau cyswllt.
- Gweithio'n agos gyda Data Cymru a'r Prif Swyddog Digidol ar gyfer y llywodraeth leol i ddarparu rhaglen o gefnogaeth wella a thrawsnewid gydlynol ac ategol i awdurdodau lleol Cymru.
- Datblygu a chynnal cysylltiadau adeiladol ac effeithiol gyda phartneriaid, gan gynnwys CLIL, Archwilio Cymru, Academi Cymru a Llywodraeth Cymru.
- Rheoli cyllideb grant gwella CLILC a chynnal cysylltiadau rheoli grant effeithiol gydag Isadran Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru, gan ddarparu adroddiadau monitro chwarterol, hawliadau ariannol a datblygu a chyflwyno cynlluniau busnes blynyddol.
- Darparu cyngor a chymorth i arweinwyr gwleidyddol CLILC a'r Tîm Rheoli
- Bod yn ddirprwy i'r Pennaeth Polisi ac ymgymryd ag unrhyw ddyletswydd neu gyfrifoldeb arall sy'n briodol i'r swydd.

Manylion am yr Unigolyn

Hanfodol

Cymwysterau

- Addysg had at lefel gradd neu gymhwyster proffesiynol cyffelyb

Gwybodaeth a Phrofiad

- Dealltwriaeth o'r strwythurau a'r amgylchedd gwleidyddol y mae llywodraeth leol a CLILC yn gweithredu.
- Dealltwriaeth o'r materion allweddol, blaenoriaethau a'r pwysau sy'n effeithio ar lywodraeth leol yn arbennig llywodraethu, gwella a/neu'r agenda polisi.
- Dangos profiad o weithio gydag uwch swyddogion, uwch aelodau etholedig neu uwch aelodau bwrdd.
- Cofnod o gyflawniad mewn amgylcheddau gwleidyddol cymhleth, yn ddelfrydol mewn llywodraeth leol neu amgylchedd gwasanaeth cyhoeddus.
- Dangos profiad o arwain prosiectau/rhaglenni llwyddiannus, yn arbennig o fewn rheolaeth ariannol, adnoddau dynol, datblygu sefydliadol, llywodraethu, gwella neu drawsnewid.
- Dealltwriaeth o'r cysyniad neu brofiad o her a chefnogaeth cymheiriaid.
- Profiad o gomisiynu ymchwil/gwaith mewnweledol o ansawdd uchel a gwybodaeth am a phrofiad o gomisiynu gwerthusiadau.
- Gallu a brofwyd i gydweithio, meithrin a chynnal cysylltiadau a phartneriaethau effeithiol.
- Profiad o ddatblygu ac arwain timau a rheoli cyllidebau.

Sgiliau a Galluoedd

- Sensitifrwydd gwleidyddol a'r gallu i ddefnyddio disgresiwn a barn briodol wrth ddelio gydag aelodau etholedig ac uwch swyddogion.
- Hyder a gwytnwch gyda sgiliau pobl ardderchog a'r gallu i ddatblygu cysylltiadau mewnol ac allanol cadarnhaol.
- Hygrededd gydag uwch aelodau etholedig, uwch swyddogion a budd-ddeiliaid
- Sgiliau trefnu gwych a'r gallu i gyflawni o dan bwysau, blaenoriaethu gwaith yn erbyn gofynion croes i gyrraedd dyddiadau terfynol.
- Sgiliau dylanwadu, trafod a datblygu cysylltiadau cryf.
- Sgiliau cyfathrebu gwych yn ysgrifenedig ac ar lafar, gallu llunio adroddiadau a chyflwyno syniadau cymhleth a negeseuon allweddol yn glir ac mewn ffordd adeiladol a sensitif.
- Sgiliau rheoli ariannol ac adnoddau ardderchog.
- Sgiliau dadansoddi a phrofiad o gymhwyso'r sgiliau hyn yn ymarferol
- Yn ddeallusol hyblyg ac arloesol; gallu trosglwyddo syniadau newydd yn bolisiau ac arferion, a gallu dylanwadu a thrafod.
- Sgiliau arweinyddiaeth a'r gallu i reoli timau yn cynnwys amrywiaeth eang o gyfranogwyr gydag amrywiaeth o sgiliau/cefndiroedd.

Agwedd a Chymhelliant

- Dealltwriaeth o ac ymrwymiad i amrywiaeth, cydraddoldeb a democratiaeth leol.
- Ymrwymiad i ddatblygu'n bersonol ac yn broffesiynol.

Arall

- Parodrwydd a gallu i deithio ledled Cymru a rhannau eraill o'r DU fel bo angen
- Yn fodlon gweithio ar benwythnosau a gyda'r nos os oes angen.

Dymunol

Sgiliau a Gallu

- Gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg
- Trwydded yrru lawn y DU

Agwedd a Chymhelliant

- Parodrwydd i ddysgu Cymraeg
-

Rhaglen Wella CLILC

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i roi grant blynyddol o £800,000 i CLILC i gefnogi gwelliant a arweinig gan y sector. Mae gan Lywodraeth Cymru ddisgwyliad clir y bydd y grant ar gyfer 2021-22 yn cael ei ddefnyddio i gefnogi cynghorau i weithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Hefyd mae Llywodraeth Cymru yn rhoi grantiau blynyddol a gaiff eu rheoli ar wahân o £200,000 i CLILC i gefnogi gweithgareddau datgarboneiddio cynghorau a £500,000 i gefnogi arweinyddiaeth ddigidol a thrawsnewid drwy'r Prif Swyddog Digidol a'r Uned Gyflawni.

Mae ymagwedd CLILC i welliant a arweinig gan y sector wedi ei gefnogi gan arweinwyr a phrif weithredwyr. Caiff cefnogaeth a arweinig gan y sector ei phriodoli ar y cysyniad o gymorth ar y cyd, gyda chydweithwyr gwleidyddol a phroffesiynol o fewn y sector yn darparu capasiti, cefnogaeth a her adeiladol i fynd i'r afael â heriau'n ymwneud â gwelliant neu i gefnogi arloesedd a thrawsnewid. Mae manteision her a chefnogaeth cymheiriaid yn ddeublyg: mae awdurdod yn elwa o dderbyn safbwyntiau arbenigol a phrofiadol cymheiriaid i fynd i'r afael â mater penodol neu ymgymryd â phroses asesu/herio, ac mae'r cymheiriaid sy'n cymryd rhan yn profi ymagweddau, diwylliannau a datrysiadau sefydliadau eraill ac yn dod â mewnwelediad a dysgu sefydliadol, personol neu broffesiynol newydd yn ôl.

Mae gan Lywodraeth Cymru ddisgwyliad clir y bydd grant 2021-22 yn cael ei ddefnyddio i gefnogi cynghorau i weithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Fe fydd y rhaglen wella yn ystod 2021-22 yn canolbwyntio ar lywodraethu corfforaethol a galluogrwydd, er bod yna drafodaethau parhaus gydag adrannau Llywodraeth Cymru ynglŷn â chefnogaeth benodol i wasanaethau, er enghraifft gydag addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol.

Mae'r grant gwella yn rhoi cefnogaeth a ddarperir yn uniongyrchol drwy CLILC a Data Cymru a chefnogaeth sydd wedi ei chomisiynu drwy bartneriaid neu ddarparwyr allanol o amgylch pedair thema graidd, cynnig cyffredin sydd ar gael i'r holl gynghorau – yn canolbwyntio ar greu capasiti corfforaethol cryf a galluogrwydd gyda chynghorau o dan bedair blaenoriaeth ryngddibynnol:

- Adferiad yn dilyn Pandemig COVID19
- Democratiaeth Leol a Datblygiad Aelodau;
- Llywodraethu Corfforaethol a Pherfformiad; a
- Galluogrwydd Corfforaethol.

Mae CLILC hefyd yn darparu cefnogaeth ragweithiol ac adweithiol i'r cynghorau hynny sydd angen cefnogaeth fwy dwys a phwrpasol i'w helpu i wella agweddau o'u busnes.

Fe fydd gweithgareddau gwella CLILC yn cael eu cyflawni drwy wasanaethau a ddarperir gan Data Cymru a thîm gwella estynedig o 6 aelod o staff, a fydd yn atebol i'r Pennaeth Polisi (Gwella a Llywodraethu), gan gynnwys dwy rôl Swyddog Polisi a Gwella sy'n bodoli eisoes a phedair swydd newydd sef: Rheolwr y Rhaglen Wella; dau Swyddog Gwella ac Uwch Swyddog Cefnogi a Chydgylltu Cymheiriaid.

Ynglŷn â CLILC

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cynrychioli lles llywodraeth leol ac yn hybu democratiaeth leol yng Nghymru.

Ein nod yw **hyrwyddo, diogelu, cefnogi a datblygu llywodraeth leol ddemocrataidd** a buddiannau awdurdodau lleol yng Nghymru.

Rydym yn sefydliad trawsbleidiol dan arweiniad gwleidyddol sy'n ceisio rhoi llais cryf i lywodraeth leol ar lefel genedlaethol. Mae CLILC yn sefydliad aelodaeth sy'n cynrychioli'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, mae'r 3 awdurdod tân ac achub a'r 3 awdurdod parc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

Rydym yn credu fod gwasanaethau'n cael eu darparu orau o fewn fframwaith democrataidd o atebolrwydd lleol ac y dylai pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus gael cymaint o lais â phosibl yn y ffordd maent yn cael eu trefnu, rheoli a'u hariannu. Ystyrir mai Llywodraeth Leol yw'r haen o lywodraeth agosaf at ddefnyddwyr gwasanaethau ac sy'n gallu ymateb orau i'w hanghenion. Rydym yn cefnogi rôl Llywodraeth Cymru o ran gosod y strategaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn genedlaethol ond credwn mai mater i lywodraeth leol yw dehongli strategaeth i ddarparu gwasanaethau yn seiliedig ar amgylchiadau lleol a blaenoriaethau lleol.

Mae llawer o'n gwaith yn canolbwyntio ar Senedd, Llywodraeth Cymru a budd-ddeiliaid a phartneriaid cenedlaethol eraill. Rydym hefyd yn cysylltu â Swyddfa Cymru a Llywodraeth y DU ac yn gweithio'n agos gyda CLIL yn Llundain i geisio dylanwadu ar bolisiau a deddfwriaeth heb eu datganoli ac, yn benodol, adfer ar ôl COVID 19 ac ymateb i ddatblygiadau sy'n ymwneud â Brexit.

Mae ein gwaith yn cynnwys ymgysylltu â Gweinidogion, Aelodau'r Senedd, a sefydliadau cenedlaethol a llywodraethol eraill. Rydym yn hyrwyddo rôl bwysig llywodraeth leol i Aelodau'r Senedd ac yn ceisio gwella a diogelu enw da cynghorau a sicrhau newid cadarnhaol i ddeddfwriaeth. Felly, mae gwaith lobïo CLILC yn helaeth.

Ein Gwerthoedd

Wrth weithio tuag at ei brif ddibenion, rydym yn ceisio bod yn:

- **Uchelgeisiol** yn ein disgwyliadau ac yn ein gweledigaeth ar gyfer democratiaeth leol a gwasanaethau lleol;
- **Atebol** i'n haelodau ac awdurdodau sy'n aelodau;
- **Rhagweithiol** wrth amddiffyn a hyrwyddo democratiaeth leol, wrth i ni ddatblygu polisi ac ymgysylltu ag aelodau;
- **Derbyngar** drwy wrando ar ac ystyried ystod o farn ein haelodau, partneriaid a'n budd-ddeiliaid;
- **Ymatebol** drwy ein gwasanaethau a chymorth i'n haelodau ac awdurdodau sy'n aelodau;
- **Cydweithredol** yn ein dull tuag at lywodraethu a gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru a budd-ddeiliaid eraill.

Rydym hefyd yn gweithio tuag at gynnal a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol; gan gynnwys hyrwyddo amrywiaeth mewn democratiaeth a chynorthwyo cynghorwyr yn eu swyddi fel cynrychiolwyr lleol wedi eu hethol yn ddemocrataidd.

Rydym wedi ymrwymo i gydraddoldeb a thegwch ac er nad ydym yn gorff statudol, rydym yn gweithredu yn ôl ysbryd deddfwriaeth fel Deddf Cydraddoldeb, Deddf Rhyddid Gwybodaeth a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Ein Nodau a'n Blaenoriaethau

Sail ein blaenoriaethau yw ein hamcanion craidd o sicrhau:

- **Diwygio, gwelliant parhaus ac ymrwymiad i bartneriaeth** – rydym yn credu mewn diwygio llywodraeth leol ac yn ceisio gwelliant parhaus fel proses ar gyfer darparu gwell canlyniadau a gwasanaethau ar gyfer pobl Cymru, a sicrhau fod adnoddau'n cael eu defnyddio mor effeithiol ac effeithlon â phosibl.
- **Cyllido teg a hyblyg** – mae angen rhagor o ymreolaeth gyllidol a hyblygrwydd ar gynghorau i ymateb i anghenion a blaenoriaethau lleol. Dylid trosglwyddo grantiau i'r setliad, a dylai Llywodraeth Cymru, ar ôl cyfnod y cytunir arno, gostio a chyllido unrhyw gynlluniau a/neu ddeddfwriaeth cenedlaethol newydd yn llawn a dylent ymrwymo i ddatganiadau ariannol sawl blwyddyn fel y gall cynghorau gynllunio yn fwy effeithiol;
- **Ymrwymiad i'r egwyddor o Sybsidiaredd** - dylai Llywodraeth Cymru a'r Senedd ymrwymo i Siarter Ewrop dros Hunanlywodraeth Lleol a'r egwyddor o sybsidiaredd, lle mae'r rhagdybiaeth yw bod grym yn cael ei drosglwyddo i'r lefel llywodraeth agosaf at y bobl. Mae gan Lywodraeth Cymru swyddogaeth strategol genedlaethol glir, ond mae cynghorau'n dymuno gweld momentwm y tu ôl i ddatganoli grymoedd y tu hwnt i Fae Caerdydd i lywodraeth leol ac i gymunedau lleol.

Byddwn hefyd yn:

- **Hyrwyddo swyddogaeth ac amlygrwydd cynghorwyr ac arweinwyr cynghorau**, gan bwysleisio eu mandad democrataidd cyfartal gyda gwleidyddion cenedlaethol.
 - **Sicrhau cymaint â phosibl o ddisgresiwn lleol mewn deddfwriaeth neu ganllawiau statudol** lle mae gan gynghorau a rhanbarthau hyblygrwydd wrth bennu blaenoriaethau, gwasanaethau a threfniadau llywodraethu rhanbarthol.
 - **Hyrwyddo gwelliant wedi ei arwain gan y sector**, gyda phwyslais ar ddigidol ac arloesi, cefnogi awdurdodau i rannu arferion gorau, datblygu sgiliau'r gweithlu a datblygu rhaglen adolygiad gan gymheiriaid corfforaethol.
 - **Annog democratiaeth leol fywiog; hyrwyddo rhagor o amrywiaeth** a gwell ymgysylltu democrataidd a chefnogi datblygiad a hyfforddiant cynghorwyr.
 - **Cefnogi awdurdodau i reoli ei weithlu'n effeithiol** drwy ein swydd fel Sefydliad Cyflogwyr.
-

Buddiannau: Gweithio i CLILC

Mae CLIL yn le cyffrous i weithio ynddo.

Mae CLILC yn y broses o adolygu ei swyddfeydd, gyda'r bwriad o gadw swyddfa yng Nghaerdydd ond gyda mwy o weithio o gartref o fis Medi 2021.

Ein nod yw cynnig amgylchedd gwaith cyfeillgar, cefnogol a hyblyg ac mae hawl gan staff i ystod o fuddion gan gynnwys:

- Codiadau cyflog cynyddrannol a chyfraniadau i'r cynllun pensiwn llywodraeth leol
- 26 diwrnod o wyliau, yn codi i 29 ar ôl 3 blynedd ac yna'n codi i 32 ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth, ac 8 diwrnod o wyliau'r banc
- Polisi gweithio ystwyth sydd yn cynnwys gweithio'n hyblyg a'r opsiynau i weithio gartref.
- Cynllun Beicio i'r Gwaith, cyfleusterau benthyciad teithio a maes parcio am ddim i staff
- Ystod o bolisiâu cefnogol, gan gynnwys egwylliau gyrfa, rhannu swydd, cynllun prynu gwyliau a threfniadau gwyliau eraill.
- Absenoldebau mamolaeth, mabwysiadu, tadolaeth ac absenoldeb rhiant a rennir hael
- Swyddfa wedi'i lleoli'n ganolog yng nghalon un o ddinasoedd mwyaf bywiog y DU

Telerau Cyflogaeth

Mae CLILC yn cyflogi ei gweithwyr yn ôl amodau'r Cydgyngor Gwladol dros Wasanaethau Llywodraeth Leol a'r amryw gytundebau lleol sydd wedi'u newid. Dyma'r prif ofynion:

Cyflog:

Byddwn ni'n talu'ch cyflog fesul mis calendr trwy gredyd banc ar y 15^{fed} diwrnod o bob mis neu oddeutu hynny.

Oriau gwaith:

36 o oriau yw'r wythnos safonol. Mae'r swyddfa ar agor o 9.00 tan 5.00 rhwng dydd Llun a dydd Gwener, er y gallai fod rhaid amrywio hynny yn ôl anghenion y gwaith.

Amser hyblyg:

Mae CLILC yn cynnig trefn amser hyblyg i bob swydd o dan lefel pennaeth polisïau.

Treuliau teithio a chynnal:

Un o'r amodau penodi yw bod ein staff yn fodlon gweithio unrhyw le yng Nghymru, gweddill y Deyrnas Gyfunol neu Ewrop ar adegau. Byddwn ni'n talu treuliau teithio a chynnal yn ôl cynllun CLILC pan fo rhywun yn gweithio y tu allan i'w ganolfan.

Gwyliau:

Yr hawl gwyliau am flwyddyn lawn (mae'r flwyddyn wyliau yn weithredol o 1 Ebrill tan 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol) fydd 26 diwrnod i ddechrau, ynghyd â gwyliau statudol. Gallai gweithwyr llywodraeth leol presennol dderbyn gwyliau ychwanegol yn seiliedig ar wasanaeth parhaus i lywodraeth leol

Pensiwn:

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei dderbyn yn awtomatig i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Cynllun cyfrannol yw hwn sydd wedi nodi buddion ar gyfer gweithwyr. <https://mpfmembers.org.uk/content/members-currently-contributing-igps>

Rhybudd: Os ydych chi'n bwriadu gadael eich swydd, rhaid rhoi gwybod fis calendr ymlaen llaw. Caiff y cyfnod ddechrau unrhyw ddiwrnod o'r mis. Rhaid i staff uwch roi rhybudd o 3 mis. Yn yr un modd, rhaid i CLILC roi rhybudd i chi fis calendr ymlaen llaw neu roi rhybudd yn ôl y cyfnod statudol cyfredol, faint bynnag sy'n hiraf.

Telerau Secondiad (os yw'n berthnasol)

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn parhau'n un o weithwyr ei gyflogwr presennol a fydd yn talu ei gyflog o hyd gan adennill yr arian hwnnw o CLILC. Ni fydd amodau na thelerau'r gwaith yn newid. Bydd y Gymdeithas yn ad-dalu costau teithio ar gyfer busnes a threuliau a ysgwyddir ar secodiad. Dylai pob ymgeisydd ddarllen polisi secodiadau ei sefydliad, a chael caniatâd ei reolwr cyn cyflwyno cais.

Swyddi o dan gyfyngiadau gwleidyddol CLILC:

Ni fydd CLILC yn penodi staff neu weithwyr mewn unrhyw rinwedd, unrhyw Gynghorydd sy'n Aelod ar hyn o bryd (yn cynnwys aelod cyfetholedig) o awdurdod lleol, neu unrhyw gorff arall sy'n aelod o CLILC e.e. Awdurdod y Parc Cenedlaethol neu a oedd wedi bod yn Aelod yn y 12 mis blaenorol (a.116 Deddf Llywodraeth Leol (DLIL) 1972).

Ystyrir y swyddi canlynol yn rhai â chyfyngiadau gwleidyddol (yn unol â'r swyddi awdurdodau lleol hynny a nodwyd yn Adran 2(1) o Ddeddf 1989¹:

- Pob aelod o'r Uwch Dîm Rheoli
- Pob swyddog a delir yn uwch na Phwynt 30 ar y Golofn Gyflog
- Swyddogion eraill sy'n rhoi cyngor rheolaidd i awdurdodau lleol
- Unrhyw swyddog gyda rôl sy'n cynnwys siarad ar ran CLILC i'r cyfryngau.

Mae WLGA yn cyflogi ei staff yn ôl egwyddorion cyfleoedd cyfartal.

¹ Rhan I o Ddeddf Llywodraeth Lleol a Thai 1989 a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Swyddi dan Gyfyngiadau Gwleidyddol) (Cymru) 2008

Gwnewch gais Rŵan!

I gael sgwrs gychwynol ynglŷn â'r swydd a'r sefydliad, cysylltwch â Daniel Hurford, Pennaeth Polisi (Gwella a Llywodraethu) ar 07900 240939..

I wneud cais, anfonwch lythyr eglurhaol gyda ffurflen gais wedi ei llenwi erbyn y dyddiad cau 10 Mai 2021 (9:00am) i:

Rheolwr Adnoddau Dynol
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
Caerdydd CF10 4LG
e-bost recruitment@wlga.gov.uk

Lanlwythwch yn uniongyrchol i'n Canolfan Recriwtio – [Cliciwch Yma](#)

Gwahoddir ymgeiswyr ar y rhestr fer i gyfweliad drwy Microsoft Teams yn ystod wythnosau sy'n dechrau ar 17 a 24 Mai 2021 gyda'r dyddiad i'w gadarnhau.

Efallai y bydd gofyn i ymgeiswyr ar y rhestr fer gwblhau tasg cyn bod yn bresennol yn y cyfarfod, yn ogystal â thasgau cyn cyfweliad ar y diwrnod, wedi'i ddilyn gan gyfweliad gyda phanel dethol.